**Bwrdd y Coleg, 20 Tachwedd 2024 (9:30 – 12:30), Coleg Cambria, Wrecsam**

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Dr Aled Eirug (Cadeirydd) |
| | Rhys Evans |
| | John Hayes |
| | Meri Huws |
| | Yr Athro Pedr ap Llwyd |
| | Llinos Roberts |
| | Yr Athro Enlli Thomas |
| **Sylwedydd:** | Alan Jones (Llywodraeth Cymru) |
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr |
| | Dr Dylan Phillips, Cyfarwyddwr Addysg Uwch ac Ysgrifennydd |
| | Gwenllïan Griffiths, Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu |
| | Dr Dafydd Trystan, Cyfarwyddwr Datblygu Strategol, Addysg Bellach a Chofrestrydd |
| | Gwenllïan Owen, Uwch Reolwr Addysg Uwch |
| | Mari Fflur, Uwch Reolwr Polisi |
| | Suzanne Lewis, Uwch Reolwr Gwasanaethau Corfforaethol (gwrando mewn) |
| | Dr Lowri Morgans, Uwch Reolwr Addysg Bellach a Phrentisiaethau (gwrando mewn) |
| **Ymddiheuriadau:** | Angharad Roberts, Ann Beynon, yr Athro Anwen Jones, Nia Elias (Aelodau'r Bwrdd) |
| | Deio Owen (Sylwedydd, Cynrychiolydd Myfyrwyr) |

**Cofnodion Cyfarfod 20 Tachwedd 2024 – cyfarfod llawn**

## 1. Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Croesawyd Alan Jones fel sylwedydd i'r cyfarfod. | | |
| 1.3 | Nodwyd ymddiheuriadau gan aelodau'r Bwrdd sef Angharad Roberts, Ann Beynon, Anwen Jones a Nia Elias. | | |
| 1.4 | Nodwyd ymddiheuriadau gan sylwedydd cynrychiolaeth myfyrwyr, Deio Owen. | | |
| 1.5 | Estynnwyd cydymdeimlad i Nia Brown, Lowri Morgans a Dafydd Trystan yn dilyn profedigaethau. | | |
| 1.6 | Diolchwyd i Llinos Roberts am gynnig Coleg Cambria fel lleoliad cyfarfod y Bwrdd. | | |

## 2. Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |
| 2.2 | Rhannwyd copi caled o ddatganiad buddiannau'r aelodau a gofynnwyd i'r aelodau wirio'r cynnwys a llofnodi i gadarnhau bod y datganiad buddiannau yn **gofnod cywir a chyfredol** o'u buddiannau a'u dychwelyd i Dr Dylan Phillips yn y cyfarfod. | | |

### 3. Adroddiad y Prif Weithredwr

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Darparwyd adroddiad ar lafar gan Dr Ioan Matthews. | | |
| 3.2 | Mae trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar gyllideb 2025/26 ar waith. Bydd aelodau'r Bwrdd yn cofio bod Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru wedi ymrwymo, cyn i'r Cytundeb Cydweithio ddod i ben, i ail-broffilio'r cynnydd yn y gyllideb nas darparwyd yn 2024/25 i flwyddyn ariannol 2025/26. | | |
| 3.3 | Mae cyfarfod ar y cyd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS, a Gweinidog Addysg Uwch ac Addysg Bellach, Vikki Howells AS, gyda'r Coleg wrthi'n cael ei drefnu. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.4 | Nodwyd bod nifer o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid wedi digwydd yn ystod y cyfnod diwethaf. Gweler y manylion yn yr adroddiad. | | |
| 3.5 | Gofynnwyd a ddylai Cadeirydd Bwrdd y Coleg dderbyn gwahoddiad i fod yn aelod o fforwm Cadeiryddion Prifysgolion Cymru a nodwyd bod cais wedi ei wneud yn y gorffennol a chytunwyd i roi cais arall am hyn. | Trafod perthynas gyda fforymau Prifysgolion Cymru tu allan i'r cyfarfod ac adrodd nôl. | |
| 3.6 | Trafodwyd datblygiad y fforwm ysgolion, pwysigrwydd adeiladu ymddiriedaeth er mwyn symud tuag at gydweithio strategol rhwng y Coleg a CYDAG. | | |
| 3.7 | Holwyd am fanylion rhai o’r prosiectau sydd ar waith i ddenu cynulleidfaoedd newydd at y ddarpariaeth Gymraeg mewn addysg uwch, megis y pecyn technegau newid ymddygiad, animateurs iaith, a phrosiect methodolegau addysgu. Bydd cyfle i aelodau dderbyn diweddariadau wrth i’r gwaith fynd yn ei flaen. | Swyddogion i drefnu sesiwn briffio i aelodau’r Bwrdd ar y prosiectau newid ymddygiad AU. | |
| 3.8 | Trafodwyd heriau cyllidebol prifysgolion a nodwyd bod yna heriau difrifol ac o ganlyniad mae prifysgolion yn fwy dibynnol ar gyllid y Coleg. Nodwyd bod penderfyniadau rhai unigolion i gymryd VR yn broblemus mewn mannau. Wrth lunio cynigion polisi i'r cyfnod nesaf, bydd angen ystyried a oes angen edrych ar broffil gweithgareddau a gwariant, ac ystyried a oes angen adnodd ychwanegol i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfeiriwyd at y Cynllun Staffio AU fel enghraifft o gynllun blaenorol gan y Coleg i adeiladu capasiti. Os oes arwyddion bod problem capasiti staffio yn dechrau codi eto, a hynny'n effeithio ar allu sefydliadau i gynnal a datblygu darpariaeth, bydd angen i'r Coleg edrych ar botensial cynllun fel y Cynllun Staffio eto. Mae angen pwyso ar Medr i sicrhau bod arian craidd (megis ar ffurf premiwm) yn cael ei ddarparu i gynnal darpariaeth fel bod cyllid y Coleg yn gallu cael ei ddefnyddio i sbarduno darpariaeth newydd. | | |

#### 4. Cyflwyniad ar Strategaeth Iechyd a Gofal y Coleg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Cyflwynodd Gwenllian Owen, Uwch Reolwr Addysg Uwch diweddariad ar Strategaeth Iechyd a Gofal y Coleg. Bwriad y strategaeth yw i ddwyn ynghyd y gweithgareddau sydd eisoes ar waith ac i sefydlu un cynllun traws-sectorol ar gyfer y meysydd hyn yn benodol. | | |
| 4.2 | Nodwyd bod datblygu strategaeth a chynllun gweithredu penodol ar gyfer y sectorau Iechyd a Gofal yn gwneud cyfraniad allweddol tuag at gyflawni'r weledigaeth oedd yng nghyngor y Coleg i Medr. Mae'r Coleg eisoes yn adnabod y sectorau Iechyd a Gofal fel meysydd blaenoriaeth ar draws ei gynlluniau AU, AB a phrentisiaethau. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.3 | Darparwyd diweddariad ar y cyd-destun data a nodwyd bod y darlun yn amrywio fesul pwnc a sefydliad a thynnwyd sylw at rai tueddiadau cenedlaethol. | | |
| 4.4 | Nodwyd bod tair prif thema yn y strategaeth sef i (i) gydweithio’n effeithiol gyda phartneriaid, (ii) cefnogi a chynyddu’r ddarpariaeth academaidd ac ar leoliad, a (iii) chynyddu’r niferoedd sy’n astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |
| 4.5 | Nodwyd bod perthynas y Coleg wedi ei gryfhau yn sylweddol gydag AaGIC, sy’n ddatblygiad strategol pwysig i’r Coleg ac i’r maes hwn. Mae nifer o bartneriaid wedi bwydo mewn i’r strategaeth a bydd y strategaeth yn esblygu wrth i ni barhau gyda’r trafodaethau. | | |
| 4.6 | Nodwyd bod Cynllun Gweithredu dilynol sy’n cyd-fynd â’r Strategaeth hon yn cynnwys 8 nod strategol ac yn amlinellu'r camau sydd angen eu cymryd i gyflawni’r prif themâu. | | |

**5. Eitem 5 - Diweddariad polisi (caeëdig)**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 5.0 | *Cofnod ar wahân (eitem gaeëdig)* | | |

## 6. Eitem 6 – Ymddiriedolaeth Salesbury

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Darparwyd diweddariad llafar gan Dr Dylan Phillips i gyd-fynd gyda'r adroddiad papur. | | |
| 6.2 | Cododd aelodau bryderon ynghylch y baich gwaith fyddai'n cwympo ar swyddogion y Coleg petai Cronfa Genedlaethol William Salesbury yn parhau yn ei ffurf bresennol fel elusen ac endid ar wahân i'r Coleg. Mynegwyd amharodrwydd hefyd i fynd i gostau pellach yn comisiynu adolygiad cyfreithiol, ac i ysgwyddo'r gost i'r hir-dymor o weinyddu'r elusen fel endid ar wahân.<br>Penderfynwyd gwrthod yr awgrym bod y Coleg yn cael ei benodi'n Ymddiriedolwr Corfforaethol ond cytunwyd y byddai'r Coleg yn barod i gymryd cyfrifoldeb am y Gronfa, gan gadw'r enw a pharhau i ddosbarthu gwobrau ariannol i fyfyrwyr yn unol â'r amcanion gwreiddiol, pe byddai'r elusen yn dod i ben a'r asedau yn cael eu trosglwyddo i'r Coleg i'w hymgorffori fel un o gronfeydd cyfyngedig eraill y Coleg.<br>Rhoddwyd awdurdod i'r swyddogion, mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd, i gynnig yr opsiwn hwn i'r Ymddiriedolwyr. | Y Coleg i gynnig cymryd cyfrifoldeb am y Gronfa pe byddai'r elusen yn dod i ben a'r asedau yn cael eu trosglwyddo i'r Coleg a'u hymgorffori fel un o gronfeydd cyfyngedig eraill y Coleg. | |

### 7. Eitemau 7 ac 8 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2024

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 7.1 | Derbyniwyd y cofnod fel cofnod cywir o'r cyfarfod. | | |

### 8. Eitemau 9 a 10 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2024

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 8.1 | Derbyniwyd y cofnod fel cofnod cywir o'r cyfarfod. | | |

### 9. Eitem 11 – Materion y Cadeirydd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 9.1 | Dim i'w nodi. | | |

### 10. Eitem 12 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 10.1 | **Cofnodion cyfarfod 6 Tachwedd 2024**<br>Cyflwynwyd copi o gofnod y cyfarfod i'r Bwrdd. | | |
| 10.2 | **Gweithdrefnau penodi i'r Bwrdd a'i bwyllgorau** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Derbyniwyd y gweithdrefnau. | | |
| 10.3 | **Recriwtio aelod newydd i'r Bwrdd**<br>Hysbysebwyd am aelod newydd i Fwrdd y Coleg yn ystod misoedd Medi a Hydref. Derbyniwyd 3 chais erbyn y dyddiad cau ar 30 Hydref. Cynhaliodd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant gyfarfod panel rhestr fer i ystyried y ceisiadau ar 7 Tachwedd a phenderfynwyd mai un ymgeisydd oedd yn teilyngu cyfweliad, i'w gynnal yn ystod y bythefnos nesaf. Bydd argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau yn dilyn y cyfweliad yn cael ei gylchredeg ymhlith aelodau'r Bwrdd drwy ohebiaeth. | | |
| 10.4 | **Ail-benodi 3 aelod o'r Bwrdd am dymor arall**<br>Yn unol â'r Gweithdrefnau Penodi mae cyfraniadau'r tri aelod isod i'r Bwrdd wedi cael eu gwerthuso ac mae'r Cadeirydd wedi argymell estyn gwahoddiad i'r tri barhau am dymor pellach o wasanaeth. Mae'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant wedi derbyn yr argymhelliad ac mae'r tri aelod wedi cytuno i barhau.<br>Cymeradwywyd ail-benodi Athro Anwen Jones, Ann Beynon a'r Athro Enlli Thomas. | | |
| 10.5 | **Penodi cadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg**<br>Gan fod cyfnod William Callaway fel aelod o Fwrdd y Coleg wedi dod i ben, mae cadeiryddiaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg yn wag yn ogystal. Mae Cadeirydd y Bwrdd wedi gofyn i Rhys Evans gadeirio'r Pwyllgor | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Archwilio a Risg ac mae Rhys wedi cytuno. Hysbyswyd y Bwrdd eisoes drwy ohebiaeth (11 Hydref 2024).<br>Cymeradwywyd penodi Rhys Evans yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. | | |

**11. Eitem 13 – Pwyllgor Archwilio a Risg**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 11.1 | **Cofnod cyfarfod 23 Hydref 2024**<br>Cyflwynwyd copi o gofnod y cyfarfod i'r Bwrdd. | | |
| 11.2 | **Cyfrifon blynyddol archwiliedig ar gyfer 2023/24**<br>Derbyniwyd y cyfrifon archwiliedig. Bydd y cyfrifon a'r datganiadau ariannol yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd ac yn cael eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau. | | |
| 11.3 | **Adroddiad yr archwilwyr allanol**<br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |
| 11.4 | **Y Gofrestr Risg Strategol**<br>Nodwyd y Gofrestr Risg, er gwybodaeth. | | |

## 12. Eitem 14 – Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 12.1 | **Cofnod cyfarfod 25 Medi 2024**<br>Cyflwynwyd copi o gofnod y cyfarfod i'r Bwrdd. | | |
| 12.2 | Derbyniwyd adroddiad llafar gan Pedr ap Llwyd, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol. | | |

## 13. Eitem 15 – Bwrdd Academaidd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 13.1 | **Cofnod cyfarfod 9 Hydref 2024**<br>Cyflwynwyd copi o gofnod y cyfarfod i'r Bwrdd. | | |
| 13.2 | Derbyniwyd adroddiad llafar gan yr Athro Enlli Thomas, Cadeirydd y Bwrdd Academaidd. | | |

## 14. Eitem 16 – Bwrdd Strategol ôl-16

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 14.1 | **Cofnod cyfarfod ar 26 Medi 2024**<br>Cyflwynwyd copi o gofnod y cyfarfod i'r Bwrdd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14.2 | Derbyniwyd adroddiad llafar gan Meri Huws, Cadeirydd y Bwrdd Strategol ôl-16. | | |

### 15. Eitem 17 – Materion cyfansoddiadol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 15.1 | **Trefniadau cyfarfod cyffredinol blynyddol (Llys)**<br>Bydd y Llys yn cael ei gynnal ar brynhawn dydd Llun, 24 Mawrth 2025 am 2 o'r gloch y prynhawn. Cyfarfod rhithiol fydd hwn i dderbyn yn ffurfiol adroddiad blynyddol a chyfrifon archwiliedig blynyddol y Coleg am 2023/24. | | |
| 15.2 | **Cylchoedd gorchwyl**<br>Derbyniwyd cylchoedd gorchwyl y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant, Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, Pwyllgor Archwilio a Risg, Bwrdd Academaidd a Bwrdd Strategol ôl-16. | | |

### 16. Eitem 18 – Cynulliad Blynyddol 2025

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 16.1 | **Cadarnhau trefniadau'r cynulliad blynyddol**<br>Bydd y Cynulliad yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 25 Mawrth 2025 yng Nghanolfan Medrus, Aberystwyth. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16.2 | **Enwebu cymrodyr er anrhydedd**<br>Derbyniwyd adroddiad llafar gan Dr Ioan Matthews a chynnig enwebu:<br>• Yr Athro Eleri Pryse<br>• David Jones MBE<br>• Yr Athro Geraint H. Jenkins<br>Cymeradwywyd yr enwebiadau. Pwysleisiwyd yr angen i'w cadw yn gyfrinachol am y tro.<br>Bydd Nia Brown, Swyddog Llywodraethiant y Coleg yn casglu enwebiadau yn ystod y flwyddyn o hyn allan. | | |

## 17. Eitem 19 – UFA

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 17.1 | Dim i’w nodi. | | |

## 18. Eitem 20 – Dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 18.1 | Nodwyd dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf:<br>• 26 Mawrth 2025<br>• 25 Mehefin 2025 | | |